



POLISI CODI TÂL

Rhaid i unrhyw daliadau a ofynnir amdanynt gan yr ysgol gydymffurfio â gofynion Deddf Diwygio Addysg 1988. Mae'r Llywodraethwyr yn cymeradwyo'r egwyddorion a gynhwysir yn y Ddeddf, yn enwedig yr egwyddor na ddylai unrhyw blentyn gael ei rwystro rhag mynediad at y cwricwlwm ar sail cost.

Mae'r ysgol yn cynnal ac yn cynnig gweithgareddau addysgiadol a gweithgareddau eraill. Mae'r rhestr isod yn rhoi esiamplau pan y dylid defnyddio Polisi Codi Tâl yn Ysgol y Strade:

- Gwerthu deunyddiau i ddisgyblion
- Talu am dorri pethau
- Talu am deithiau ysgol
- Gosod ystafelloedd dosbarth, y gampfa a'r neuadd at ddefnydd cymunedol
- Gwerthu asediau
- Gwerthu offer i ddisgyblion e.e cyfrifianellau
- Gwerthu eitemau o ddillad
- Ail-sefyll arholiadau allanol am yr eildro, ac ail-sefyll ar ôl hynny.

Nodau

1. I sicrhau bod cymaint â phosib o fyfyrwyr yn cael mynediad i raglen eang o deithiau a gweithgareddau.
2. I sefydlu ac i gynnal, o fewn terfynnau cyllideb yr ysgol, system codi tâl sy'n deg a chydlynol.

Adolygu

Bydd y Llywodraethwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cyllid a Marchnata yn adolygu'r Polisi Codi Tâl yn flynyddol, yn cytuno ar werthiant eitemau/gosod ystafelloedd ac yn cadarnhau unrhyw daliadau.

Defnyddir y Polisi Codi Tâl yn yr amgylchiadau yma:

1. Pan fydd rhieni wedi dweud ymlaen llaw y maent am berchnogi cynnyrch gorffenedig a gynhrychir mewn gwersi ymarferol, mae'n bosib y gofynnir iddynt dalu rhan o gost, neu holl gost y deunyddiau neu'r cynhwysion.
2. Mae'n bosib y gwahoddir cyfraniadau gwirfoddol tuag at deithiau ysgol a gynhelir gan fwyaf o fewn oriau'r ysgol. Ni fydd unrhyw blentyn yn cael ei eithrio oherwydd ei anallu i dalu ond mae'r ysgol yn cadw'r hawl i ganslo'r daith os na fydd lefel y cyfraniadau yn ddigonol i gwrdd â'r gofynion ariannol.



3. Codir tâl ar gyfer teithiau sy'n digwydd gan fwyaf y tu allan i oriau ysgol.
4. Ar deithiau preswyl, codir tâl am fwyd, am lety a theithio, yn ddarostyngedig i eithriadau statudol.
5. Yr ysgol fydd, fel arfer, yn talu costau arholiadau y pynciau a ddysgir yn yr ysgol, ond pan na fydd ymgeiswyr yn cwrdd â meini prawf mynediad yr ysgol, neu'n gadael yr ysgol cyn yr arholiadau, ac yn dal i eisiau sefyll yr arholiad, mae'n bosib y gofynnir iddynt dalu ffi mynediad.
6. Disgwylir i rieni dalu'r tâl llawn ymlaen llaw am unrhyw wasanaeth ôl-arholiad oddiwrth fwrdd arholi allanol e.e. ail-farcio.
7. Yr ysgol sydd yn gyfrifol am dalu tâl cofrestru pob disgybl ar gyfer sefyll arholiadau allanol. Nid yw'r ysgol yn talu am ail sefyll unrhyw uned i ddisgybl heblaw am yr eithriadau canlynol :-
 - disgyblion sy'n astudio pynciau sydd wedi cael caniatâd y Pennaeth i gofrestru disgyblion yn gynnar
 - disgyblion sy'n derbyn PYD

Dylid ymgynghori gyda'r athro pwnc cyn gwneud penderfyniad am ail sefyll. Anogir disgyblion i ail sefyll os dyna yw argymhelliad yr athro.'

Gweler Polisi Arholiadau Allanol yr Ysgol

8. Rhaid i ddisgyblion a myfyrwyr sydd am sefyll yr un arholiad allanol am y trydydd tro; h.y. ail-sefyll am yr eildro, dalu ffi llawn yr arholiad cyn ymgeisio.
9. Os fydd disgybl yn sefyll arholiad nad yw'r ysgol wedi ei baratoi/ei pharatoi ar ei gyfer, neu os fydd disgybl yn ffael bodloni gofynion arholiadau arholiad cyhoeddus heb reswm da, gall y Corff Llywodreathol ofyn i'r rhieni dalu'r ffioedd.
10. Mewn achosion pan godir tâl, rhaid hysbysebu rhieni o flaen llaw a chasglu'r arian cyn cynnal y weithgaredd. Ystyrir geisiadau am help oddiwrth rhieni sy'n derbyn Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Teulu a chynigir cymorth os fydd cyllideb yr ysgol yn caniatáu. Perchir cyfrinachedd yr unigolion mewn achosion o'r fath. Cynhwysir unrhyw gostau yswiriant yng nghyfanswm costau'r teithiau neu'r gweithgareddau.
11. Cyn mynd ati i werthu unrhywbeth yn yr ysgol, rhaid cael caniatad y Pennaeth, a hynny ymlaen llaw. Rhaid cadw cofnod o'r incwm a ddisgwylir, yr hyn a dderbynir petai'r holl eitemau'n cael eu gwerthu, cofnod cywir o'r stoc a chyfanswm yr incwm sydd wedi'i fancio. Bydd eitemau o'r math yn cael eu gwerthu i ddisgyblion am bris eu cost.



12. Ni godir tâl fel arfer am weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn gyfangwbl neu gan fwyaf o fewn oriau'r ysgol. Beth bynnag, mae'n bosib y codir tâl am wersi offerynnol cerddorol a/neu am fenthyg offeryn, os nad ydy hyn yn rhan o arholiad cyhoeddus neu gwrs y Cwricwlwm Cenedlaethol.
13. Bydd yr ysgol yn ad-ennill cost unrhyw doriadau (e.e gwydr/ fandaliaeth) oddiwrth rhieni plentyn sydd wedi ei ganfod yn difa eiddo'r ysgol.
14. Defnyddir gweithdrefnau a thaliadau Polisi Gosod yr ysgol pan dderbynir gais i logi adeilad yr ysgol at ddefnydd cymunedol.
15. Rhaid defnyddio gweithdrefn gwaredu ar asedau yr ysgol pan werthir ased ysgol. Rhaid i'r Pennaeth awdurdodi unrhyw werthiant o'r fath. Rhaid cadw cofnodion priodol.

Diweddarwyd:	
Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol:	
Llofnod y Cadeirydd:	

